Y Comisiwn Etholiadol

Ffurflen gwariant ymgyrchu gan blaid wleidyddol mewn etholiad cyffredinol Senedd y DU (cofrestr Prydain Fawr)

Nodiadau esboniadol ar lenwi ffurflen RP11 (GB)

Cyn llenwi'r ffurflen hon, dylai pob plaid ddarllen ein canllawiau ar wariant ymgyrchu pleidiau: electoralcommission.org.uk/cy/etholiad-cyffredinol-senedd-y-du-gwariant-pleidiau-a-rhoddion-cyn-y-bleidlais.

Mae'n ofynnol i bob plaid ar gofrestr Prydain Fawr sy'n cystadlu yn etholiadau cyffredinol Senedd y DU gyflwyno ffurflen gwariant ymgyrchu i'r Comisiwn Etholiadol.

Rhaid i ffurflen gwariant ymgyrchu pob plaid restru pob eitem o wariant yr aed iddo gan neu ar ran y blaid yn yr etholiad dan sylw. Mae'n ofynnol i bleidiau sy'n cystadlu mewn etholiad ond nad ydynt yn mynd i wariant ymgyrchu gyflwyno ffurflen i'r Comisiwn, sy'n nodi na aethpwyd i unrhyw wariant ymgyrchu.

Dylid cyflwyno ffurflenni gwariant ymgyrchu o fewn tri mis i ddyddiad yr etholiad os oedd y gwariant yn £250,000 neu lai, ac o fewn chwe mis i ddyddiad yr etholiad os oedd y gwariant yn fwy na £250,000.

Mae pob un o'r nodiadau canlynol yn cyfateb i adran wedi'i rhifo ar ffurflen RP11 (Prydain Fawr).

Adran 1: Manylion plaid a datganiad

1a Manylion y blaid gofrestredig

Nodwch y manylion canlynol (dylid nodi'r rhain hefyd ar frig pob tudalen o'r ffurflen yn y gwagle a ddarperir):

- enw'r blaid
- y cyfnod a reoleiddir a gwmpesir gan y ffurflen
- yr etholiad y mae'r ffurflen yn ymwneud ag ef, e.e. etholiad cyffredinol Senedd y DU
- rhif cyfeirnod y blaid.

1b Datganiad a llofnod

Rhaid i'r datganiad gael ei lofnodi gan:

- swyddog ymgyrchu'r blaid gofrestredig os oes un wedi'i benodi, neu
- trysorydd cofrestredig y blaid.

Noder, os yw swyddog ymgyrchu wedi'i benodi, y swyddog ymgyrchu sy'n gyfreithiol gyfrifol am wariant ymgyrchu'r blaid a rhaid iddo lofnodi'r datganiad.

Argraffwch y daflen waith hon a llofnodwch y dudalen hon â llaw. Os ydych yn anfon eich ffurflen drwy e-bost, anfonwch gopi wedi'i sganio o'r datganiad drwy e-bost i pef@electoralcommission.org.uk.

Mae'n drosedd i berson wneud datganiad ffug yn fwriadol neu'n ddi-hid, neu fethu â chyflwyno ffurflen erbyn y dyddiad cau perthnasol.

1c Ffurflen archwiliedig

Mae'n rhaid i ffurflenni gwariant ymgyrchu sy'n manylu ar wariant o fwy na £250,000 ddod gydag adroddiad gan archwilydd annibynnol. Lle bo'n berthnasol, rhaid rhoi enw a chyfeiriad yr archwilydd.

Adran 2: Crynodeb o wariant

2a Crynodeb o wariant (mathau o daliadau)

Mewn perthynas â Chymru, Lloegr, yr Alban a Phrydain Fawr gyfan, nodwch fanylion:

- cyfanswm y taliadau a wnaed
- cyfanswm y gwariant tybiannol
- cyfanswm yr hawliadau heb eu talu
- cyfanswm yr hawliadau y mae anghydfod yn eu cylch
- cyfanswm y gwariant (h.y., cyfanswm yr uchod i gyd).

2b Etholaethau y cystadlir ynddynt

Nodwch nifer yr etholaethau y cystadlir ynddynt ym mhob rhan o Brydain Fawr yn yr etholiad y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef.

2c Categorïau gwariant (A-I)

Mewn perthynas â Chymru, Lloegr, yr Alban a Phrydain Fawr gyfan, nodwch gyfanswm y gwariant yr aethpwyd iddo ym mhob un o'r categorïau gwariant a ganlyn:

- darllediadau gwleidyddol pleidiau
- deunydd hysbysebu a chyhoeddusrwydd
- deunydd digymell i etholwyr
- maniffesto / dogfennau polisi plaid
- ymchwil i'r farchnad / canfasio

- cyfryngau
- trafnidiaeth
- ralïau a digwyddiadau eraill
- gorbenion a gweinyddiaeth gyffredinol
- cyfanswm y gwariant (h.y., cyfanswm yr uchod i gyd).

Noder y dylai ffigur cyfanswm y gwariant yn 2c fod yr un fath â'r ffigur cyfanswm gwariant a roddir yn 2a (h.y., dylai'r symiau yn 2c gynnwys unrhyw wariant tybiannol, hawliadau heb eu talu a hawliadau sy'n destun anghydfod).

Adran 3: Taflenni gwaith gwariant

Mae'r adran hon yn cynnwys naw taflen waith wahanol ar gyfer pob categori gwariant. Mae'r rhain wedi'u labelu o A i I.

Rhif yr eitem
Nodwch rif eitem unigryw ar gyfer pob llinell gwariant.

Anfoneb/derbynneb wedi'i chyflwyno
Rhaid cyflwyno anfoneb neu dderbynneb am unrhyw eitem o wariant sy'n fwy na £200. Nodwch a oes dogfen wedi'i hamgáu gyda'r datganiad.

Dylid labelu anfonebau gyda'r rhif eitem cyfatebol a ddarperir yn y golofn flaenorol.

Natur y gwariant
Nodwch ddisgrifiad o'r nwyddau a'r gwasanaethau yr aethpwyd i wariant ar eu cyfer, e.e. llogi fan ddosbarthu am gyfnod o dair wythnos.

Enw a chyfeiriad y cyflenwr
Nodwch enw a chyfeiriad llawn cyflenwr y nwyddau neu'r gwasanaethau y mae pob eitem yn berthnasol iddynt.

Rhan(nau) o Brydain Fawr y mae gwariant yn berthnasol iddi
Nodwch y swm priodol o gyfanswm y gwariant a ddosrannwyd i Gymru, Lloegr a'r Alban.

Mae canllawiau ar ddosrannu gwariant ar gael yn ein canllawiau gwariant pleidiau yn etholiad cyffredinol Senedd y DU electoralcommission.org.uk/cy/etholiad-cyffredinol-senedd-y-du-gwariant-pleidiau-a-rhoddion-cyn-y-bleidlais/dyrannu-gwariant-ledled-prydain-fawr

Swm
Nodwch swm y gwariant ar bob eitem.

Dyddiad y gwariant
Nodwch y dyddiad yr aed i'r gwariant gan neu ar ran y blaid.

Dyddiad hawlio taliad
Nodwch ddyddiad y cais am daliad gan y cyflenwr (fel arfer y dyddiad ar yr anfoneb).

Dyddiad talu'r hawliad
Dyma'r dyddiad y talwyd yr anfoneb. Hwn fydd y dyddiad a ddangosir ar unrhyw dderbynneb.

Adran 4: Gwariant tybiannol

Datganiad
Rhaid i'r swyddog ymgyrchu cofrestredig, os oes un wedi'i benodi, neu fel arall trysorydd cofrestredig y blaid, wneud datganiad ynghylch gwariant tybiannol.

Rhif yr eitem
Nodwch rif eitem unigryw ar gyfer pob llinell gwariant.

Categori gwariant (A-I)
Rhowch y categori gwariant priodol gan ddefnyddio'r llythrennau a ddangosir yn 2c yn y crynodeb gwariant, e.e. gwariant ar drafnidiaeth fyddai'r llythyren G.

Natur y gwariant
Nodwch ddisgrifiad o'r nwyddau a'r gwasanaethau yr aethpwyd i wariant ar eu cyfer, e.e. llogi fan ddosbarthu am gyfnod o dair wythnos.

Enw a chyfeiriad y cyflenwr
Nodwch enw a chyfeiriad llawn cyflenwr y nwyddau neu'r gwasanaethau y mae pob eitem yn berthnasol iddynt.

Rhan(nau) o Brydain Fawr y mae gwariant yn berthnasol iddi
Nodwch y swm priodol o gyfanswm y gwariant a ddosrannwyd i Gymru, Lloegr a'r Alban.

Gwerth
Nodwch werth y gwariant tybiannol ar nwyddau neu wasanaethau a ddarperir.

Mae gwybodaeth am sut i gyfrifo gwerth gwariant tybiannol i'w chael yn electoralcommission.org.uk/cy/etholiad-cyffredinol-senedd-y-du-gwariant-pleidiau-a-rhoddion-cyn-y-bleidlais/gwariant-tybiannol

Cyfnod/dyddiad yr aed i'r gwariant
Nodwch y dyddiad neu'r cyfnod pan aethpwyd i'r gwariant.

Adran 5: Datganiad o hawliadau heb eu talu

Rhif yr eitem
Nodwch rif eitem unigryw ar gyfer pob llinell gwariant.

Categori gwariant (A-I)
Rhowch y categori gwariant priodol gan ddefnyddio'r llythrennau a ddangosir yn 2c yn y crynodeb gwariant, e.e. gwariant ar drafnidiaeth fyddai'r llythyren G.

Enw a chyfeiriad y cyflenwr

Nodwch enw a chyfeiriad llawn cyflenwr y nwyddau neu'r gwasanaethau y mae pob eitem yn berthnasol iddynt.

Natur y gwariant
Nodwch ddisgrifiad o'r nwyddau a'r gwasanaethau yr aethpwyd i wariant ar eu cyfer, e.e. llogi fan ddosbarthu am gyfnod o dair wythnos.

Sylwadau
Dylid defnyddio'r adran hon ar gyfer unrhyw wybodaeth ychwanegol, megis y rheswm dros beidio â thalu'r hawliad.

Rhan(nau) o Brydain Fawr y mae gwariant yn berthnasol iddi
Nodwch y swm priodol o gyfanswm y gwariant a ddosrannwyd i Gymru, Lloegr a'r Alban.

Mae canllawiau ar ddosrannu gwariant ar gael yn ein canllawiau gwariant pleidiau yn etholiad cyffredinol Senedd y DU electoralcommission.org.uk/cy/etholiad-cyffredinol-senedd-y-du-gwariant-pleidiau-a-rhoddion-cyn-y-bleidlais/dyrannu-gwariant-ledled-prydain-fawr

Swm
Nodwch swm yr hawliad neu anfoneb sydd heb ei dalu.

Dyddiad y gwariant
Nodwch y dyddiad yr aed i'r gwariant gan neu ar ran y blaid.

Dyddiad yr anfoneb
Nodwch y dyddiad a ddangosir ar yr anfoneb sy'n ymwneud â'r taliad.

Adran 6: Datganiad o hawliadau sy'n destun anghydfod

Rhif yr eitem
Nodwch rif eitem unigryw ar gyfer pob llinell gwariant.

Categori gwariant (A-I)
Rhowch y categori gwariant priodol gan ddefnyddio'r llythrennau a ddangosir yn 2c yn y crynodeb gwariant, e.e. gwariant ar drafnidiaeth fyddai'r llythyren G.

Enw a chyfeiriad y cyflenwr
Nodwch enw a chyfeiriad llawn cyflenwr y nwyddau neu'r gwasanaethau y mae pob eitem yn berthnasol iddynt.

Natur y gwariant
Nodwch ddisgrifiad o'r nwyddau a'r gwasanaethau yr aethpwyd i wariant ar eu cyfer, e.e. llogi fan ddosbarthu am gyfnod o dair wythnos.

Sylwadau
Dylid defnyddio'r adran hon ar gyfer unrhyw wybodaeth ychwanegol megis y rhesymau dros yr anghydfod rhwng y blaid a'r cyflenwr.

Rhan(nau) o Brydain Fawr y mae gwariant yn berthnasol iddi
Nodwch y swm priodol o gyfanswm y gwariant a ddosrannwyd i Gymru, Lloegr a'r Alban.

Mae canllawiau ar ddosrannu gwariant ar gael yn ein canllawiau gwariant pleidiau yn etholiad cyffredinol Senedd y DU electoralcommission.org.uk/cy/etholiad-cyffredinol-senedd-y-du-gwariant-pleidiau-a-rhoddion-cyn-y-bleidlais/dyrannu-gwariant-ledled-prydain-fawr

Swm
Nodwch swm yr hawliad neu anfoneb y mae anghydfod yn ei gylch.

Dyddiad yr hawliad sy'n destun anghydfod
Nodwch y dyddiad yr honnir yr aed i'r gwariant gan neu ar ran y blaid.

Dyddiad yr anfoneb
Nodwch y dyddiad a ddangosir ar yr anfoneb sy'n ymwneud â'r taliad.

Dylid dychwelyd y ffurflen RP11 (Prydain Fawr) i:

Tîm Cydymffurfiaeth a Thryloywder
Y Comisiwn Etholiadol
3 Bunhill Row
Llundain
EC1Y 8YZ

Ffôn: 0333 103 1928
E-bost: pef@electoralcommission.org.uk
Gwefan: comisiwnetholiadol.org.uk